

heddwch

Rhifyn 68 > Ebrill 2018 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

HEDDWCH YW'R WOBR

Richard Outram



CND yn 60. Gosodwaith yng Nghaernarfon Chwefror 2018

Mae'r ymgyrch yn cychwyn fan hyn...

Ym mis Hydref 2017, dyfarnwyd Gwobr Heddwch Nobel 2017 i ICAN (yr Ymgyrch Ryngwladol i Ddileu Arfau Niwclear). Mae'r glymblaid hon o grwpiau ymgyrchu mewn 100 o wledydd yn cynnwys CND Cymru. Cyd-drefnodd yr ymgyrch i gael y Cenhedloedd Unedig i fabwysiadu Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear. Yn 2018, mae'r cytundeb hwn lawn bwysiced i'n goroesiad ag y byddai wedi bod 60 mlynedd yn ôl pan sefydlwyd CND.

Ymunwch â ni yma yng Nghymru ar gyfer ymgyrch newydd fyd-eang.

Gwaharddiad Byd-Eang y CU

Gall darllen penawdau'r newyddion fod yn boenus y dyddiau yma, ond gall Is-gadeirydd CND Cymru, BRIAN JONES, groesawu tipyn o newyddion da o'r diwedd.

‘Wrth i wledyddiaeth fydeang fynd yn fwyfwy darniog a di-ddal’, meddai, ‘mae llawer o wledydd y byd wrthi'n arwyddo cytundeb newydd y CU sy'n ailategu eu hymrwymiad i fyd heb arfau niwclear.’

Fframwaith ar gyfer heddwch

Ar y 7 Gorffennaf 2017 ym mhencadlys y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd cytunodd 122 o wledydd y byd i fabwysiadu Cytundeb i Wahardd Arfau Niwclear. Dim ond 1 bleidlais oedd yn erbyn ac 1 wedi ei hatal.

Mae'r Cytundeb hwn yn llwyr wahardd defnyddio, meddu ar, datblygu, a gwneud profion ag arfau niwclear, yn ogystal â chynorthwyo â'r fath weithredoedd gwaharddedig. Bu'n agored i'w arwyddo ers 20 Medi 2017. Hyd at fis Mawrth 2018, mae 57 o wledydd wedi arwyddo.

Sawl gwlad mae angen eu cael i arwyddo?

Rhaid i hanner cant arwyddo a chadarnhau'r cytundeb cyn y daw i rym. Mae arwyddo'n weithred gymharol syml gan arweinydd gwlad, ond mae cadarnhau fel arfer yn golygu deddfu trwy senedd er mwyn

cynnwys y gwaharddiad o fewn cyfraith y wlad ei hun. Hyd yn hyn, mae saith gwlad wedi cadarnhau.

Oni fydd y pwerau niwclear yn ei anwybyddu?

Er na ddisgwyllir i'r un wlad sydd ag arfau niwclear arwyddo'r Cytundeb yn y dyfodol agos, mae'n sicr o effeithio'n sylweddol ar eu hymddygiad yn y tymor hir.

Pam y bydd yn llwyddo?

- Mae'r Cytundeb hwn yn dadgyfreithloni arfau niwclear. Wrth i fwyfwy o wledydd arwyddo, bydd yn arwyddo clir nad yw'r mwyafrif yn y byd bellach yn derbyn arfau niwclear, gan greu norm newydd.
- Fel yn achos cytundebau gwahardd arfau blaenorol, mae newid normau rhyngwladol yn arwain at newid pendant mewn polisïau ac ymddygiad, hyd yn oed pan fo gwledydd yn gwrthod arwyddo. Roedd hyn yn wir am y cytundebau i wahardd ffrwydron clwstwr a ffrwydron tir. Mae'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr yn enghraifft arall. Efallai bod yr Unol Daleithau wedi gwrthod ei gadarnhau, ond o leiaf nid yw



wedi cynnal yr un prawf arfau niwclear ers i'r cytundeb ddod i fodolaeth.

- Mae'r Cytundeb newydd yn cwblhau cyfres o waharddiadau ar arfau dinistr torfol.

Cychwynnodd y broses hon yn y 1970au, pan gafodd

arfau cemegol eu gwneud yn anghyfreithlon, a pharhau hyd at y 1990au, pan gafodd arfau biolegol eu gwahardd.

- Diben arfau niwclear yw lladd miliynau o sifiliaid yn ddiwahân – sy'n llwyr dramgwyddo pob Cyfraith Ddyngarol Ryngwladol. Ychydig iawn o bobl a fyddai'n dadlau bod lladd sifiliaid ar y fath raddfa yn dderbyniol, ond mae'n amhosib defnyddio arf niwclear heb wneud hynny. Mae'r cytundeb yn cryfhau'r cyfreithiau hyn.

- Bydd gwledydd yn aml yn ceisio arfau niwclear er mwyn y bri o gael eu gweld fel rhan o glwb pwysig. Trwy wneud arfau niwclear yn destun dirmyg llwyr yn hytrach nag edmygedd, gellir atal eu hymlediad.

NEWYDDION BYD-EANG

“Mae’r Cytundeb CU hwn yn gwahardd arfau niwclear ac yn mynnu eu dileu. Dyna’r drefn resymegol a ddilynwyd gan bob cytundeb diarfogi a ph’run ai bod y llywodraeth yn hoffi hynny ai peidio, bydd yn cynyddu’r pwysau cyfreithiol, economaidd a chyhoeddus o blaid atal sbloet wario wallgof Prydain ar adnewyddu Trident.”

Dr Rebecca Johnson, cyn-ymgyrchydd Comin Greenham

1 Pwy sy’n gwahardd beth?

Mae’r cytundeb yn gwahardd gwladwriaethau rhag datblygu, profi, cynhyrchu, gwneuthur, trosglwyddo, meddu, crynhoi, defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear, neu ganiatáu cadw neu leoli arfau niwclear gwlad arall ar eu tiriogaeth nhw. Mae’r cytundeb hefyd yn gwahardd gwladwriaethau rhag cynorthwyo, annog neu gymell unrhyw un i weithredu yn yr un o’r ffyrdd hynny.

2 A ydy’r cytundeb yn rhwymo’n cyfreithiol?

Ydy – a nac ydy. Pan ddaw i rym, mae’r cytundeb yn rhwymo’r gwledydd sydd wedi ei arwyddo a’i gadarnhau yn gyfreithiol ond, fel pob cytundeb rhyngwladol, nid yw’n rhwymo gwledydd sydd heb ei arwyddo a’i gadarnhau.

3 A all gwlad sy’n meddu arfau niwclear arwyddo’r cytundeb?

Gall, gall ymuno â’r cytundeb, cyhyd ag y bo hi’n cytuno i atal statws weithredol ei harfau niwclear ar unwaith, a chyflwyno cynllun â grym y gyfraith, o fewn terfyn amser penodol, y gellir ei wirio, ar gyfer dinistrio’i harfau niwclear.

4 A all gwlad sy’n caniatáu arfau niwclear ar ei thiriogaeth arwyddo’r

cytundeb?

Gall gwladwriaeth sy’n caniatáu lleoli arfau niwclear gwlad arall ar ei thiriogaeth ymuno â’r cytundeb, cyhyd ag y bo’n cytuno i’w symud oddi yno erbyn dyddiad penodol.

5 A all gwladwriaeth ymuno â’r cytundeb ac aros mewn cyng rhair filwrol â gwlad sydd ag arfau niwclear?

Gall. Does dim yn y cytundeb yn atal gwlad rhag bod mewn cyng rhair filwrol â gwlad ag arfau niwclear, cyhyd ag y bo’i chyfranogiad yn y gyng rhair honno heb gynnwys gweithredoedd gwaharddedig yn ymwneud ag arfau niwclear.

6 A ydy’r cytundeb yn sefydlu mesurau gwirio neu fesurau i sicrhau nad yw gwledydd yn datblygu arfau niwclear?

Ydy. Rhaid i wledydd sydd â mesurau diogelu o dan y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY) gadw at y

cytundebau hyn, heb rwystr i arwyddo cytundebau newydd yn y dyfodol. Gofynnir i wledydd sydd heb fesurau diogelu ddod i gytundeb yn unol â gofynion y CAY o fewn 18 mis. Nid yw’r cytundeb yn tanseilio unrhyw ymrwymadau a wnaed i fesurau diogelu o dan y CAY.

7 A all gwlad honni nad yw rhannau penodol o’r cytundeb yn berthnasol iddi?

Na all. Nid yw’r cytundeb yn caniatáu i genedl wneud ‘ymataliadau’. Mae hynny’n golygu na all gwlad ymuno â’r cytundeb, a honni nad yw rhai o’i ddarpariaethau yn berthnasol iddi.

8 A all gwlad dynnu’n ôl o’r cytundeb?

Gall. Wrth weithredu ei sofraniaeth, gall cenedl dynnu allan o’r cytundeb. Rhaid rhoi 12 mis o rybudd. Fodd bynnag, ni all dynnu allan os yw’n rhan o wrthdaro arfog.



Gwylnos yn Hiroshima: byth eto.

NEWYDDION BYD-EANG

Sôn am ryfel

Wrth i ymgyrchwyr anelu am SAA Aldermaston dros y Pasg, dichon eu bod yn holi 'Beth mae 60 mlynedd o CND wedi'i gyflawni go iawn?' Wel, mae'r lleihad yn nifer yr ergydion niwclear ers i'r ras arfau ddod i'w hanterth yn y 1980au yn ddim llai na rhyfeddod, gyda llawer o'r clod i'w briodoli i ymdrechion parhaus mudiadau heddwch byd-eang.

Yn drasig, gwastraffwyd y difidend heddwch a ddeilliodd o ddiweddu'r Rhyfel Oer mewn rhyfelgarwch yn y mileniwm newydd. Yn 2018, cafodd 'Cloc Dydd y Farn' (asesiad blynyddol a gyhoeddir gan y Bulletin of Atomic Scientists) ei ailosod, ar 2 funud i hanner nos, gyda diogelwch byd-eang yn cael ei ddisgrifio fel 'enbydus'. Mae'r phenthreg sarhaus wedi disodli diplomyddiaeth.

Ymlediad a safonau dwbl

Ceir nifer llai o arfau yn nwylo nifer mwy o wledydd. Mae ymlediad yn parhau wrth i'r uwch-bwerau ganiatáu i'w cynghreiriaid ddatblygu arfau niwclear yn anghyfreithlon heb ddim cosb, tra'n cystwyo llywodraethau nad ydynt yn eu hoffi am wneud yr un fath.

Tywydd garw

Yr un hen rymodd sydd wrthi, sef imperialaeth, cystadlu am adnoddau, ymryson economaidd. Mae NATO yn parhau i ddwrddio a bygwth Rwsia yn weidyddol a thiriogaethol wedi'r Rhyfel Oer, gan wneud dim ond atgyfnerthu

trefn unbenaethol Putin. Ychydig iawn y gall y CU gwladwriaethol ei sail ei wneud yn erbyn lluoedd terfysgol di-wladwriaeth. Aeth Syria – ac erys – yn faes cyflafan mewn rhyfel dirprwyol. Mae'r byd mor anwadal ag ydoedd ym 1914.

Y rhyfelgwn newydd

Fu meistri rhyfel erioed yn feistri moesoldeb, ond mae nifer o arweinwyr presennol y byd yn gwbl ddigywilydd eu rhwysg a'u hymffrost plentynnaidd. Mae Putin, Trump, a Kim Jong-Un yn clecian cleddyfau a bygwth armagedon, yn cynyddu eu harfogaeth a sôn am arfau niwclear maes-cad. A phan fydd llwybr posibl tuag at heddwch yn ymagor, eir ati nid â diplomyddiaeth bwyllog ond gan wegian a phendilio a

gwrthddweud eu hunain mewn ffyrdd amhosib eu rhagweld. Yn y cyfamser, mae arweinwyr a fagwyd â gwell moesau a goslef dawelach yn dal i werthu arfau ac awyrennau di-rif i Saudi Arabia i'w defnyddio ar blant a phentrefwyr yn Yemen, ac yn dal i ladd yn anghyfreithlon â dronau.

Y gwaharddiad byd-eang

Mae'r cytundeb gwrth-niwclear byd-eang yn gyfle unigryw i gyfwynebu gwledyddiaeth Maciafelaidd a'r lobi filwrol-ddiwydiannol â chydraddoldeb, cyfiawnder a heddwch. Dim ond diolch i ddyfal-barhad y mudiad heddwch dros y 60 mlynedd diwethaf y mae yna dir uchel moesol ar ôl i'w feddiannu.

Philip Steele

heddwethredu >>> A ydy'ch AS wedi gwrthwynebu diarfogi unochrog erioed gan ddweud na all gefnogi dim ond dull amlochrog o fynd ati? Wel, â chytundeb amlochrog ar y bwrdd bellach, beth am ei g/orfodi i gadw at ei g/air? Sgrifennwch at eich AS, ASE a'ch ACau gan ofyn iddynt arwyddo'r Addewid o Gefnogaeth Seneddol i'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear, gweler - <http://www.cndcymru.org/ican-the-international-campaign-against-nuclear-weapons>



Robert Idris

Gweithredwch yn fyd-eang, gweithredwch yn lleol: dros Gymru ddi-niwclear, heddychlon. Gwrthdystiad Porthaethwy 2018

RHEOLIAD NIWCLEAR

Y Mesur Trefniadau Diogelu Niwclear

Mae'r dryswch dros oblygiadau Brexit wedi arwain rhai i gyhuddo llywodraeth San Steffan o 'fachu pwerau' a mentro ar ddadroleiddio a allai fod yn beryglus. Mae'r ddau beth yn beryglon gwirioneddol mewn cytundeb ôl-Ewratom, rhybuddia LINDA ROGERS, aelod o CND Cymru.



Sara Medi Jones

Wrth i oblygiadau ymadael ag Euratom ddechrau treiddio, gyda dealltwriaeth gynyddol bod pŵer niwclear yn feicrocosm brawychus o fyd dadroleedig Brexit, eglurodd John Large, yr ymgynghorydd niwclear annibynnol, y sefyllfa: 'Y prif faich pe bai'r DU yn gadael Ewratom fydd yr angen iddi sicrhau ei hymrwymadau i ddiogelu yn erbyn ymlediad niwclear; er mwyn gwneud hynny, bydd rhaid iddi naill ai sefydlu asiantaeth annibynnol, ar wahân neu ddod â'r oblygiadau hyn o dan adain y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)'. Ni fydd neb yn synnu i glywed mai'r ail drefniant a gynigir, felly bydd y mesurau diogelwch hyn (i sicrhau nad aiff deunydd niwclear ar gyfeiliorn neu gael ei gamddefnyddio i ddibenion amgen na'r bwriad, fel yr eglura Cymdeithas y Diwydiant Niwclear, yr NIA) bellach o dan adain sefydliad y cwestiynwyd ei annibyniaeth ar sawl cyfrif. Ym Mis Mawrth 2018 pleidleisodd Tŷ'r Argwyddi dros aros mewn Ewratom. Bydd Tŷ'r Cyffredin yn ceisio gwrthdroi'r pleidlais maes o law.

Pwy sy'n gwarchod y gwarchodwyr?

Mae'r ffaith bod yr ONR yn glòs at y diwydiant a'r llywodraeth, ynghyd â'r dyletswyddau newydd parthed mesurau diogelwch atal ymlediad, yn fwy byth o destun pryder gyda'r datguddiadau diweddar ynglŷn â'r gwir resymau dros barhau i ddefnyddio pŵer niwclear sifil yn y DU. Ni chlywir nemor ddim ynglŷn â gwerth am arian bellach, na diogelwch; dywedir wrthym bod diogelwch y DU yn dibynnu ar sgiliau'r diwydiant niwclear – fel y gellir sicrhau olynnydd i Trident.

Na i Trident! Llandudno, Chwefror 2018

Y cysylltiad â Trident

Mae'r Ecologist yn cadarnhau (24 Hydref 2017): 'Gwyddom bellach (diolch i Andy Stirling a Philip Johnstone o Brifysgol Sussex) bod y llywodraeth am ddefnyddio'r rhaglen niwclear sifil i gynhyrchu sgiliau arbenigol a thechnoleg at ddefnydd milwrol, yn enwedig adweithyddion ar gyfer llongau tanfor niwclear Trident.' Ble mae hynny'n gadael yr ONR? Pwy sy'n diffinio 'diben bwriadedig' deunydd niwclear?

Efallai y bydd amcanion pellach y Mesur Trefniadau Diogelu o gymorth:

- 'Rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i lunio rheoliadau mesurau diogelu niwclear, a fydd yn nodi manylion y drefn ddomestig ar gyfer mesurau diogelu niwclear.'
- 'Rhoi pŵer gwneud-rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol fel y gall ddiwygio deddfau neilltuoel (yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol) sy'n cyfeirio at rannau o'r cytundebau presennol ar fesurau diogelu niwclear rhwng yr IAEA a'r DU.'

Atebolrwydd a'r broses ddemocrataidd

Pwy, felly, sy'n goruchwylio'r rheoliadau newydd? A sut mae atal y rheoliadau rhag gwasanaethu dibenion gwleidyddol (marwol, o bosib) pwy bynnag sydd mewn grym? Yn y lle cyntaf, bydd yn rhaid i'r ddau Dŷ gadarnhau'r rheoliadau newydd, ond ni fydd unrhyw welliannau diweddarach yn ddarostyngedig i'r drefn honno, oni bai eu bod yn diwygio deddfwriaeth a bennwyd eisoes yn y Mesur Diogelu neu yn Neddf Ynni 2013. Mae'r Ddeddf Ynni yn cynnwys y DU gyfan.

Newyddion yr Wylfa

Mae'r naill 'ymgyngoriad' yn dilyn yn dynn ar sodlau'r llall ... ac un arall ... ac un arall ... Dyfais gyfrwys yw'r camau biwrocrataidd hyn i dicio'r blychau tra'n dal i osgoi'r broses ddemocrataidd.

Mae cefnogaeth i **PAWB** yn tyfu ar garlam wrth i rwystredigaeth ac amheueon gynyddu. Ond hyd yn oed nawr, dydy llawer o'r cyhoedd ddim yn ymwybodol o oblygiadau difrifol a maint y project hwn.

Mae PAWB yn cydweithio'n glòs gyda mudiadau o'r un anian, ac mae'n mawr werthfawrogi cefnogaeth CND Cymru.

Crewyd cysylltiadau clòs â grwpiau gwrth-niwclear yn Japan, sy'n targedu Hitachi (perchen Horizon Nuclear) yn ei famwlad, gan drefnu protestiadau penodol yn erbyn Wylfa a gwrthwynebu allforion niwclear Hitachi. Ar ddiwedd 2017, ymwelodd Ayumi Fukakusa â ni, er mwyn creu cysylltiad â Chyfeillion y Ddaear Japan.

Gofynnodd Heddwch rai cwestiynau amserol i Dylan Morgan, cydlynnydd PAWB:

Lle mae pethau arni gydag Wylfa B?

Nid yw'r Arolygaeth Gynllunio am Orchymyn Cydsynio Datblygu (DCO) wedi'i gyflwyno eto gan Horizon.

Effaith y DCO bydd dinistrio amgylchedd gogledd Môn trwy godi dau adweithydd niwclear enfawr a fydd yn creu gwastaff ymbelydrol am o leiaf 60 mlynedd. Mae hyn yn gwbl nodweddiadol o ymddygiad trahaus a gormesol Horizon, o ystyried NAD oes unrhyw sicrwydd ynglŷn â model ariannu'r prosiect.

Felly beth yw'r sefyllfa ariannol?

Roedd sôn ar ddechrau'r flwyddyn bod llywodraethau Japan a Phrydain wedi cytuno i wario llwythi o arian cyhoeddus i hwylyso codi Wylfa B. O

fewn ychydig ddyddiau, roedd Gweinidog Economi Japan yn gwadu bod cytundeb yn bodoli. Y gwir amdani yw nad oes unrhyw obaith y gall Hitachi frwr ymlaen â ffantasi Wylfa B heb arian sylweddol iawn gan y ddwy lywodraeth.

A fydd yn mynd yn ei flaen?

Mae'r cwmnïau mawr yn sylweddoli mai pwll du di-waelod yw ynni niwclear ac mae dirywiad y diwydiant yn fyd-eang eto eleni yn profi nad oes awydd ar gwmnïau i fentro'u harian eu hunain ar y fath dechnoleg hen ffiawn, beryglus ac eithriadol o ddrud.

Trawsfynnydd: addewidion gwag

Caeodd yr hen adweithydd Magnox ar lan llyn Trawsfynnydd ym 1991. Cafodd cyfleuster gwastraff lefel-ganolradd ei adeiladu ar y safle, a buwyd wrthi'n dadgomisiynu ers 1993. Ond roedd yr addewidion y câi'r safle ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol yn rhai gwag. Mae bygythiad newydd i'r safle bellach, gyda sôn am arbrofi ag Adweithydd Modiwlwr Bach (SMR) yno.

Mae Deilwen Evans, CADNO, yn poeni bod y safle wedi effeithio'n wael ar iechyd yn yr ardal, fel y dangoswyd yn 2006 gan raglen HTV ar gancr yn ardal Llan Ffestiniog (gweler <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/alarmed-cancer-rates-near-n-power-2332927>). Mae CADNO'n dweud Na i'r SMR arfaethedig, ond yn canmol cynllun y Dref Werdd ym Mlaenau Ffestiniog am greu rhyw 200 o swyddi diogel – a rheini'n rhai heb ddim cysylltiad posibl â Trident.



Yn y llaid a'r llaca!

Mae ymchwil yr ymchwilydd llygredd morol Tim Deere-Jones i gynlluniau EdF i garthu mwy na 300,000 tonnelli o fwd o Fôr Hafren a'i ollwng ger Bae Caerdydd wedi creu cryn dipyn o gythrwll!

Talwyd am yr ymchwil gan CND Cymru a grwpiau eraill. Mae'r gwaddod yn debyg o fod wedi eu llygru gan radioniwclidau a thocsinau eraill a ryddheir i ddyfroedd Bae Bridgewater o bibellau all-lif gorsafoedd pŵer niwclear Hinkley Point A a B. Bwriedir carthu er mwyn gosod y pibellau all-lif ar gyfer Hinkley Point C, ac i adeiladu glanfa fel y gellir cludo darnau o offer ar gyfer yr orsaf bŵer niwclear yn uniongyrchol i'r safle.

Pryder y cyhoedd

Mae ymchwil Tim wedi esgor ar gwestiynau ar lawr y Cynulliad; mwy na 7,000 o lofnodion ar y ddeiseb ar wefan y Cynulliad; cyfanswm rhyfeddol o 52,000 o lofnodion ar ddeiseb ar-lein Sum of Us; trafodaeth yng nghynhadledd adolygu Cytundeb Dympio Llundain (y sefydliad rhwyngwladol sydd goruchwylio'r gwaharddiad ar gael gwared o wastraff niwclear yn y môr); sawl cyfweiliad teledu a radio; erthygl sylweddol yn y Guardian; cyflwyniadau i Gyngor Bro Morgannwg a fforwm Cymru'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear – mae wedi bod yn amser prysur!

Drosodd i'r Cynulliad

Ar hyn o bryd, mae'r ffocws ar

Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad sydd yn ystyried a fu'r profion i ganfod gronynnau ymbelydrol yn ddigon manwl. Mae EdF yn dadlau bod y profion yn dangos bod y gwaddod yn ddiogel, ond mae ymchwil Tim (sydd ar gael ar wefan CND Cymru) yn nodi na fu'r profion yn ddigon manwl: er enghraifft, ni phrofwyd ar lefel ddyfnach na 5 cm, tra bod ymchwil yn awgrymu mai ar lefel o 20-25 cm o ddyfnder y ceir y lefelau uchaf o ymbelydredd.

Ofn y ceir llygredd ar y lan

Rhybuddiodd Tim Deere-Jones y gallai'r gwaddod a ollyngwyd ailgrynhoi'n ddeunydd ymbelydrol mwy pwerus a chael ei olchi i'r lan mewn ymchwydd stormydd. 'Gwyddom fod gwaddod mewn gwastadeddau llaid yn gallu sychu a chwythu i'r lan, ac y gall mân waddod ag ymbelydredd cysylltiedig gael eu trosglwyddo i'r tir mewn aerosolau môr ac ewyn

y tonnau. Mae astudiaethau o ymchwyddiadau llanw yng ngogledd Cymru wedi datgelu bod y mwd a'r tywod a adawyd ar y lan wedi eu llygru'n ddifrifol gan ymbelydredd o Sellafield.'

Gohirio'r carthu!

Dylid gohirio'r carthu nes y cwblheir asesiad effaith amgylcheddol llawn. 'Y broblem yw'r hyn sy'n anhysbys, meddai un Aelod Cynulliad. 'Does dim o'r fath beth â dôs ddiogel o ymbelydredd nad yw'n digwydd yn naturiol yn yr amgylchedd. Beth sydd gennym yma yw busnes mawr yn sathru dros Gymru, a llywodraeth Gymreig yn plygu glin i Lundain a'r diwydiant niwclear. Nid yw buddiannau cenedlaethol Cymru yn cael eu gwasanaethu yma. Mae'r cyhoedd yn gynddeiriog bod y deunydd yma'n mynd i gael ei ollwng yn nyfroedd Caerdydd, a'i olchi o amgylch arfordir Cymru, gydâ'r posibilrwydd y caiff ymbelydredd ei drosglwyddo o'r môr i'r tir.'

Brian Jones

Y Babell Heddwch yn y Steddfod



Robat Idris, PAWB, yn croesawu gwrthwynebwyr Horizon, Richard a Gwenda Jones, Caerdegog, i Steddfod Genedlaethol 2017

>>> PAROD I WEITHREDU YN 2017

Roedd y flwyddyn 2017 yn un gythryblus yn wleidyddol ym mhedwar ban, ond un peth calonogol oedd parodrwydd pobl ifanc i godi llais a chamu ymlaen i weithredu'n effeithiol iawn, ac nid ar-lein yn unig – hyd yn oed os mai tueddu i ddenu'r hen lawiau a wna cyfarfodydd cyhoeddus!

• Fis Mawrth 2017, ymunodd aelodau o CND Cymru â ffrynt unedig i alw am Gymru werdd, ddi-niwclear yn ystod sesiwn undydd brysur yn Aberystwyth. Roedd y tim yn cynnwys PAWB (Pobl Atal Wylfa B), CADNO (yn gwrthwynebu cynlluniau ar gyfer adweithyddion modiwlwr bach yn Nhrawsfynydd), Greenpeace, Cymdeithas yr Iaith a'r NFLA. Y siaradwy'r oedd Reinhard Uhrig (Global 2000 Awstria); Grenville Ham

(Arweinydd, Plaid Werdd Cymru); Jill Evans ASE (Plaid Cymru); Peter Smith (cyn-beiriannydd yn Hinkley); Dewi Llwyd Evans (Ynni Ogwen), Cyng. Ernie Galsworthy (Llafur); Selwyn Jones (CIG), a Linda Gunter (sefydlydd Beyond Nuclear). Ar i fyny bo'r nod, gyda'n gilydd!

• Ar ddiwedd Ebrill 2017, ymgasglodd gweithredwyr o ogledd Cymru ar Ynys

Môn ger Pont Menai i goffáu 30 mlwyddiant trychineb Chernobyl. Aeth hwn yn fan gwrthdystio rheolaidd – mae'n dal traffig y rhuthr foreol, mae'n cynnig cefnlen heb ei ail, a heb fod yn rhy bell o stafelloedd newyddion y BBC ar gyfer gohebwy'r diog!

• Ym Mehefin, cadeiriodd Dr Carl Clowes, PAWB, gynhadledd Llundain CND Prydeinig ar bŵer niwclear. Roedd hwn yn glamp o ddiwrnod, a drefnwyd gan Dr Ian Fairlie, gyda rhestr o siaradwyr a oedd yn darllen fel 'Pwy yw Pwy' y mudiad gwrth-niwclear. Llu o areithiau gwych, ac fel yn Aberystwyth, teimlad cynhyrfus o hyder fod yr amserau'n newid o'n plaid.

• Cynhaliwyd Eisteddfod Gendlaethol 2017 ger Bodedern ym mis Awst 2017. Rhannwyd y Babel Heddych gan CND Cymru (diolch o galon i Jan a Brian Jones am eu gwaith gwych), Cymru dros Heddych, Cymdeithas y Cymod a PAWB. Y cymydog drws nesa o'r Wylfa oedd Horizon Nuclear, un o noddwyr y Steddfod a oedd â chyhoedduswydd ledled y Maes. Roedd y presenoldeb corfforaethol hwn

Ffair Arfau Caerdydd 2017

Llion Wigley



Protestwyr yn rhwystro lorïau'r rhai sy'n budr-elwa ar ryfel

• Tyfodd gwerthiant arfau'r DU i'r entychion ers dwy flynedd, yn aml i wledydd â record ofnadwy o ran hawliau dynol neu dreisgarwch. Fis Mawrth 2017 casglodd

protestwyr yn erbyn y fasnach arfau y tu allan i Arena Motorpoint Caerdydd i wrthwynebu ffair arfau DPRTE (Caffael Amddiffyn, Ymchwil, Technoleg ac Allforio).

>>> PAROD I WEITHREDU YN 2017

yn destun gwatwar i lawer o Eisteddfodfodwyr. Mawr yw ein diolch i'r cerddorion Meinir Gwilym, Tecwyn Ifan, Bryn Fôn a'r Moniars a fu'n canu dros yr achos gwrth-niwclear. Cawsom gefnogaeth hefyd gan ein cyfeillion o grŵp Japan Against Niwclear Llundain – yn cynnwys Shigeo Kobayashi, ei wraig Ann Smith, o Trident Ploughshares, a'r bythol siriol ac egniol Kasume.

• Bu un o sylfaenwyr Trident Ploughshares, Angie Zelter, o Drefyclo, Powys, ger bron lllys yn Dumbarton ym mis Hydref 2017. Cafodd hi a'i chyd-ymgyrchwyr Brian Quail o Glasgow a Sam Donaldson o Hull eu restio mewn gwarchae yn Coulport, lle caiff ergydion niwclear y DU eu cadw a'u llwytho ar longau tanfor. Gan iddi wrthod yr amodau mechniaeth, treuliodd Angie 16 diwrnod yn y carchar. Fel rhan o'i hamddiffyniad, crybwyllodd Angie y bleidlais yn y CU ar y cytundeb gwahardd byd-eang a'r ffaith y dyfarnwyd Gwobr Heddwch Nobel i ICAN.

• Cafodd aelod o CND Casnewydd, Peter Adamson, ddirwy o £50 am brotestio yn erbyn Trident yn yr un weithred yn Coulport, yr Alban.

• Cynhaliwyd seminar hydref 2017 Fforwm Cymru'r

Protestwyr DSEI o Gymru



Richard Stafford

O'r Gororau i DSEI 2017

• Ym mis Medi, ymunodd protestwyr o Bowys mewn wythnos anhygoel o lwyddiannus o brotestiadau yn erbyn ffair arfau DSEI (y fwyaf yn y byd) yn ExCel yn nocio Llundain, lle bu mwy na 1,600 o wneuthurwyr a gwerthwyr arfau yn brolio'u nwyddau. Dynodwyd y 6ed o Fedi yn ddydd 'Dim Niwclear', a chododd côr o Lanandras, Powys eu lleisiau mewn cân.

• Yn y cyfamser, y tu fewn i ffair arfau DSEI, cyfaddefodd y Weinyddiaeth Amddiffyn o'r diwedd bod dronau wedi mynd ar goll eto fyth (gweler Heddwch rhif 67) o faes awyr Aberporth. Y tro yma, collwyd dau dros Fôr Iwerddon, am gost o filiynau. Hyd yn hyn, mae rhaglen dronau Watchkeeper cwmni Thales wedi costio £1.1 biliwn i ni, ac mae'n fwy na saith mlynedd ar ei hôl hi.

Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yng Nghaerdydd, dan gadeiryddiaeth y cynghorydd Sue Lent. Soniodd David Jones, Marine Energy Wales, am yr argoelion ar gyfer cynhyrchu

ynni o'r llanw a'r tonnau. Bu Dr Carl Clowes, PAWB, and Roy Pumfrey o ymgyrch Atal Hinkley, yn damcaniaethu ynghylch dyfodol adeiladu niwclear newydd a'i beryglon.

>>> >>> Ymlaen yn 2018

• Penwythnos Heddwch yn y Rhyl

Am y drydedd flwyddyn o'r bron, trefnodd Cynulliad Werin y Rhyl a Pauline Cutress Benwythnos Heddwch mis Ionawr gyda rhaglen fywiog o sgysiau, caneuon a thrafodaethau. Roedd siaradwyr gwadd yn cynnwys Duncan Rees, Is-gadeirydd CND Cymru, a'r Athro David Webb, Cadeirydd CND Prydeinig a chydlynnydd y Rhwydwaith Bydeang yn erbyn Arfau.

• Ail-eni CWNC

Mae CND Cymru yn croesawu ailsefydlu Cynghair Wrth-Niwclear Cymru, a sefydlwyd ym 1980. Mae ei haelodau'n

cynnwys CND Cymru, yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel, PAWB, CADNO (Trawsfynydd) a Stop Hinkley. Mae ganddi wefan newydd sbon yn <https://www.wana.wales/copy-of-home>

• CND yn 60

Fis Chwefror 2018, daeth gosodwaith anferth CND yn dathlu 60 mlwyddiant ei sefydlu i Gaernarfon, ei arhosfan cyntaf ar daith o gwmpas Prydain (gweler y clawr blaen). Fe'i codwyd ar y Maes, yn her i'r castell, symbol o rym milwrol oes a fu. Bu nifer o wyliau heddwch CND Cymru gwych yng Nghaernarfon yn ôl yn

y 1980au, felly i'r hen lawiau, roedd hi'n wirioneddol fel pe bai'r symbol CND enwog yn dod adref. Diolch o galon i Sara Medi Jones a'i chynorthwyr. Aeth y llythrennau anferth ymlaen i Landudno y bore canlynol ar gyfer arddangosiad gwych arall a stondin brysus wedi ei threfnu gan Grŵp Heddwch Sir Conwy ac Efa Wulle.

• Yn ôl traed Glyndŵr

Mae ffrynt unedig yn erbyn pŵer niwclear yn ailgynnull am 10.30am fore Sadwrn 14 Ebrill 2018 yn Senedd-dy Owain Glyndŵr ym Machynlleth. Byddwch yno!

heddweithredu >>>

Allwch CHI helpu CND Cymru yn y Steddfod?

Bydd Eisteddfod Genedlaethol eleni ym Mae Caerdydd, 3-11 Awst, a bydd gan CND Cymru stondin, fel arfer... ond po fwyaf o wirfoddolwyr fydd gennym, y mwyaf o bobl y gallwn siarad â nhw. Byddwn yn casglu enwau ar y ddeiseb yn erbyn olyn Trident, ac yn galw sylw at y gefnogaeth i'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear yn rhyngwladol - ac yn lleol, gobeithio. Os gallwch helpu am awr neu ddwy - neu hyd yn oed ddiwrnod neu ddau - da chi, cysylltwch â Brian Jones brian.jones@phonecoop.coop tel 01792 830 330



Robur Idris

**Protestiwrch, boed law neu hindda ...
Cofiwch Fukushima - Na i Wylfa B, Mawrth 2018**

Holhti

gan Manon Wyn Williams,
cyfarwyddwyd gan Sarah Bickerton

Mark Douet



Perfformiwyd Holhti gyntaf yn y Steddfod Genedlaethol yn 2017 ac yna aeth ar daith i Gaernarfon, Aberteifi, Caerfyrddin, Aberystwyth a Chaerdydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Fe'i perfformiwyd yn Gymraeg gyda throsiad Saesneg trwy gyfrwng ap Sibrwd.

Mae Holhti'n golygu 'rhannu' neu 'ymholliad' ('fission' yn Saesneg), teitl addas gan fod y ddrama'n archwilio effaith project Wylfa B sydd wedi rhwygo cymunedau lleol. Defnyddir union eiriau pobl leol, ar sail cyfweiliadau. Mae'n ddrama amleiriog sy'n ymdrin â syniadau, ond cafwyd cyflwyniad llawn egni, angerdd a hiwmor gan y cast gwyh, gyda'r tŷ llawn yn Galeri, Caernarfon wrth eu bodd. Ceisiwyd cyflwyno pob ochr i'r stori, gyda'r ddrama'n cychwyn ac yn gorffen ar fferm Caerdegog, lle heriodd y teulu Jones Horizon Nuclear: 'Ddim gymaint bod gynnon ni afael yn y tir, ond bod y tir wedi gafael ynon ni.'

**Sefydliad Prichard Jones,
Niwbwrch**

**Cymru > Fukushima
20 millisievert y flwyddyn**

**arddangosfa o ffotograffau gan
Lis Fields**

Mae'r arddangosfa hon, a oedd i'w gweld ar Ynys Môn ar hyd mis Awst, yn dogfennu canlyniadau trychineb niwclear Fukushima yn Siapan yn 2011 (sy'n dal i effeithio ar bobl).

Gwelwn y sachau plastig du o bridd wedi ei lygru, cartrefi gwag, teganau ar wasgar, y strydoedd cyffredin yr olwg heblaw am eu gwacter. Mae'r cyffredinedd

yn y cyd-destun yn llawer mwy ysgytwol na ffordd fwy dramatig o fynd ati, ac mae'r penawdau mor wrthrychol a fforensig â lens y camera.

Artist o Lundain yw'r ffotograffydd, Lis Fields, a ymwelodd â'r ardal gyda'r Groes Werdd Ryngwladol. Ynghyd â'r arddangosfa, ceid ffilm a 'seinlun' gan Cian Ciarán o'r Superfurries, sydd yntau wedi ymweld â Fukushima, a Meilyr Tomos. Ym mis Hydref, bu Lis Fields yn trafod ei gwaith a Fukushima gyda chynulleidfia yn Galeri, Caernarfon, lle'r oedd y ffilm yn cael ei dangos.



Lis Fields

Tony Simpson

1941 -2017

Bu Tony Simpson, ymgyrchydd ysbrydoledig a diflino dros heddwach a chyfiawnder, yn flaenllaw mewn ymgyrchoedd heddwach lleol a chenedlaethol ar hyd ei oes.

Crwt o Aberhonddu

Hyd yn oed ar ôl iddo symud o dde Cymru i Honiton yn 2005, gwrthododd Tony laesu dwylo. Ymhlith ei ymgyrchoedd lu (yn erbyn cau ysbyty Honiton, er enghraifft, neu'r ganolfan gymuned a'r llyfrgell leol), roedd gosod "Polyn Heddwach" ar Stryd Fawr Honiton. Dawn fawr Tony oedd ennyn diddordeb a chefnogaeth leol bob amser, trwy erthyglau papur-newydd a chyfarfodydd cyhoeddus, lle byddai bob amser yn gwneud i wleidyddion lleol wingo. Yn y cyswllt hwn, llwyddodd Tony, brodor o Aberhonddu, i drawsblannu ysbryd radicaliaeth Gymreig i gornel bach cysgld o Ddyfnaint.


CND Pen-y-bont

Mynychodd Tony Goleg Harlech cyn mynd ymlaen i Brifysgol Abertawe, gwaith cymdeithasol, a swydd darlithydd mewn gweinyddiaeth gymdeithasol. Cafodd ef ac Edna, ei wraig am 52 o flynyddoedd, eu profiadau cyntaf o weithredu ar y gorymdeithiau Aldermaston cynnar. Yn ddiweddarach,

sefydlodd Tony Gangen Pen-y-bont o CND a ymgyrchodd yn llwyddiannus yn erbyn adeiladu byncar niwclear lleol, pan gafodd ef ac eraill eu trochi mewn sment ger bron y camerâu teledu. Cyhoeddwyd ei hanes o'r ymgyrch hon, No Bunkers Here, gan Peace News – er nad yw ar gael bellach, gobeithiwn ei roi ar wefan CND Cymru yn ystod y flwyddyn nesaf. Roedd Tony'n ei weld ei hun fel newyddiadurwr rhwystredig, a chyfrannodd ei allu i atgyfnerthu gweithgareddau CND â sylw yn y cyfryngau lleol yn fawr at gryfder cangen Pen-y-bont.

Heddwach i'r byd

Roedd Tony'n allweddol yn yr ymgyrch i ddarbwyllw wyth Cyngor Sir Cymru i fabwysiadu polisïau Parth Di-niwclear, gan arwain at Ddatganiad y Gymru Ddi-Niwclear ym 1982. Efallai bod darllenwyr Heddwach hefyd yn cofio pamffled Tony, "Taking peace to the world", a leolodd Henry Richard AS (1812-1888), Apostol Heddwach, yn ei briod le yng nghanol yr ymgyrch ysbrydoledig i roi terfyn ar ryfel



Ceri Oak

trwy gyfundrefn o Gyflafareddu Rhyngwladol.

Gwers bywyd

Boed wrthi'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus, yn dosbarthu taflenni neu'n dadlau â chynghorwyr ac ASau, roedd Tony yn ymgorfforiad ardderchog o ysbryd ei hoff ddyfyniad gan yr awdur Nikolai Ostrovsky:

'Bywyd yw eiddo anwylaf dyn. Dim ond un waith y'i rhoddir iddo, a rhaid iddo ei fyw fel na theimla byth boen edifeirwch am flynyddoedd gwastraff, na chywilydd llosg gorffennol gwachul a phitw; ei fyw fel y gallo, wrth farw, ddweud: ar hyd fy oes, rhoddais fy holl nerth i'r achos mwyaf aruchel yn yr holl fyd – y frwydr dros ryddid i'r ddynolryw.'

Pete Foley

Beatrice Smith

1937 -2018

Ar y 4 Chwefror 2018, collasom ein cyfeilles a'n cymrawd annwyl Beaty Smith, ar ôl cyfnod maith â'i hiechyd yn methu.

Ganed Beaty ym 1937 i deulu dosbarth-gweithiol mawr yn Garston, Lerpwl a ffurfiodd ei magwraeth yn y 1930au ymhlith pobl ddeallus, hunan-addysgiedig ei hymdeimlad dwfn o gyfiawnder cymdeithasol a'u hymlyniad ar hyd ei hoes wrth achos sosialaeth.

Er lles i bawb

Gweithiodd Beaty yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar hyd ei hoes, fel nyrs yn gyntaf ac yna fel chwaer ward, ac roedd ym Mharis ym 1968 lle bu'n dyst i ddigwyddiadau hanesyddol gwrthryfel y myfyrwyr. Bu'n weithgar yn ei hundeb llafur tra'n gweithio ac, ar ôl symud i

Gymru yn y 1970au, daeth yn weithgar ym Mhlaid Cymru gan ymgychu dros fwy o ddatganioli a hawliau iaith.

Mewn gair a chân

Roedd yn fardd ac yn awdur cyhoeddedig, yn cynnwys y gyfrol Gasmasks and Garston, A Liverpool Childhood, disgrifiad cynnes a nodweddiadol fanwl o fywyd dosbarth-gweithiol yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif. Roedd Beaty hefyd yn aelod hirfaith, gweithgar a mawr ei pharch o'r côr stryd sosialaidd, Côr Cochion Caerdydd. Cyhoeddodd hanes darluniedig 20 mlynedd cyntaf y côr, Stand up and Sing (Y Lolfa), a chymerodd ran ym mhob recordiad a wnaed gan y côr.

Y Weithredwraig

Bu Beaty'n weithredydd gwleidyddol am ddegawdau

lawer. A hithau byth yn fodlon bod yn sylwedydd goddefol, bu'n weithgar gydag CND Cymru, Ymgyrch y Glowyr, a hawliau LGBT+ a menywod. Ar ôl cymryd rhan mewn taith gefnogol o Balesteina ac Israel gyda Côr Cochion ym 1994, dychwelodd yn benderfynol o weithio dros gyfiawnder. Ailymwelodd â Phalesteina ar sawl dirprwyath heddwch, a dadlau achos y Palestinaid o fewn ei phlaid ei hun.

Doedd Beaty byth yn un am roi'r gorau iddi pe bai pethau'n mynd yn anodd, nac am osgoi gweithredu pe bai angen. Roedd yn ffrind deallus, cynnes a hynod gefnogol ac yn ryngwladolwraig o'r iawn ryw.

Roedd ei bywyd yn ysbrydoliaeth.

Byddwn oll yn gweld ei cholli.

Wendy Lewis



Gorymdaith dros heddwch yn Llundain: Beaty Smith, ar y dde, gyda chyfeillion Côr Cochion.

CYSYLLTIADAU CND CYMRU

Mae CND Cymru'n
ymgyrchu ochr yn ochr
â llu fudiadau eraill yng
Nghymru a phedwar ban y byd i gael
gwared o arfau dinistr torfol o Brydain
a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i
bobl a'r amgylchedd.



CYSYLLTIADAU

Brian Jones

01792 830 330

swanseacond@btinternet.com

Duncan Rees

07534 975 461

Duncan.rees01@gmail.com

Trysorydd, aelodaeth ac aelodau:

CND Cymru, 9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

Ysgrifynydd Cenedlaethol:

Jill Gough,

Llys Gwyn, Glynarthen, Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188

heddwch@cndcymru.org

twitter: @cndcymru

www.cndcymru.org

facebook: cndcymru

HEDDWCH

yw cylchgrawn yr
**Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng
Nghymru** (CND Cymru)

golygydd:

Philip Steele

cyfiethydd:

Sian Edwards

sian@siandefynnog.wales

cynhyrchu a phostio:

Redkite Print

redkiteprint@thefreeflyer.com

**Os oes gennych unrhyw ddyddiadau neu
wybodaeth – neu sylwadau – i'w cynnwys
yn y rhifyn nesaf, anfonwch nhw i
phil_steele@btinternet.com**

Cyhoeddir y rhifyn nesaf: Haf 2018

*Nid yw cynnwys **heddwch** o anghenraid yn
adlewyrchu barn neu bolisiau CND Cymru.
Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth.
Anfonwch unrhyw sylwadau neu
gyfraniadau at y golygydd.*

Dilynwch CND

Cymru ar Facebook!

Am wybodaeth ddiweddarach am
ein hymgyrchoedd a manylion o
gyfarfodydd a gweithgareddau ledled
Cymru.



Aldermaston, Pasg 2018